



Polisi Ailgylchu a Rheoli Gwastraff

Mae Gŵyl Fel 'Na Mai wedi ymrwymo i leihau ein hól troed amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd drwy gydol ein digwyddiad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rheoli gwastraff yn gyfrifol, ac yn anelu at greu effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

O 6ed Ebrill 2024, mae'r gyfraith newydd yn golygu bod yn rhaid i holl weithleoedd gyflwyno deunyddiau canlynol ar wahân i'w hailgylchu a threfnu i'r gwastraff gael ei gasglu ar wahân i wastraff arall. Mae'r gyfraith yn berthnasol i'r Wyl hefyd, sy'n cael ei chynnal ar dir preifat. Deunyddiau i'w hailgylchu yn yr Wyl.

- Plastig e.e. poteli diod
- Caniau e.e. diod
- Gwastraff bwyd

Ni chaniateir gwyrdd ar safle'r Wyl ac eithro i stondinwyr / bar ar gyfer defnydd tu ol stondin / bar. Disgwylir iddynt sicrhau eu bod yn gwaredu'r poteli o'r safle i'w hailgylchu eu hunain.

1. Lleihau Gwastraff:

• Rydym yn blaenoriaethu lleihau gwastraff trwy annog ein darparwyr bwyd a diod i ddefnyddio deunyddiau ecogyfeillgar a bioddiraddadwy ar gyfer pecynnu, yn cynnwys lleihau maint y pecynnu.

2. Gorsafoedd Ailgylchu:

• Rydym yn darparu gorsafoedd ailgylchu wedi'u marcio'n glir ar hyd tir yr ŵyl i'r rhai sy'n mynychu i wahanu deunyddiau ailgylchadwy. (Ni all deunyddiau fel cardfwrdd neu bapur sydd yn frwnt gael eu hailgylchu. Darperir bin ar wahân ar gyfer hyn.)

3. Archwiliadau Gwastraff:

• Rydym yn cynnal archwiliadau gwastraff cyn, yn ystod, ac ar ôl yr ŵyl i asesu ein harferion rheoli gwastraff a nodi meysydd i'w gwella.

4. Gofynion Gwerthwr:

• Mae'n ofynnol i bob gwerthwr a chyflenwr gadw at ein canllawiau amgylcheddol, gan gynnwys defnyddio deunyddiau pecynnu y gellir eu hailgylchu a lleihau'r gwastraff a gynhyrchir.

• Anogir gwerthwyr i gyrchu cynnyrch a gynhyrchwyd yn lleol a chynaliadwy pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

5. Addysg ac Ymwybyddiaeth:

• Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth ymhlith mynychwyr am bwysigrwydd ailgylchu, lleihau gwastraff trwy arwyddion, cyhoeddiadau a deunyddiau addysgol.

• Bydd mentrau a chyflawniadau amgylcheddol yn cael eu hamlygu ar ein gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

6. Partneriaethau a Chydweithio:

• Rydym yn cydweithio â sefydliadau amgylcheddol lleol a chwmnïau rheoli gwastraff i weithredu arferion gorau ar gyfer lleihau gwastraff ac ailgylchu.

• Rydym yn mynd ati yn barhaus i geisio adborth gan ran-ddeiliaid, gan gynnwys mynychwyr, gwerthwyr a phartneriaid, i wella ein hymdrechion cynaliadwyedd.

7. Strategaethau Lleihau Gwastraff:

• Rydym yn ymdrechu i leihau plastigion un-tro a deunyddiau eraill na ellir eu hailgylchu yn ein gŵyl. Mae hyn yn cynnwys partneru â gwerthwyr sy'n cynnig opsiynau pecynnu cynaliadwy, fel cwpanau ac offer bioddiraddadwy a lleihau swmp y pecynnu.

• Rydym hefyd yn annog mynychwyr i ddod â photeli dŵr y gellir eu haildefnyddio a chynnig gorsaf ail-lenwi ar y lleoliad.

• Anelwn hefyd i brynu adnoddau / cyfarpar / offer ail-law pan yn briodol neu fenthyg wrth fusnesau neu sefydliadau eraill e.e. gazebos, matiau a charpedi, celfi. Ceisiwn hefyd uwchgyrchu deunyddiau ar gyfer gwneud celfi ac addurniadau e.e. bordydd a sedde o dei ars a darnau o ffabrigau ar gyfer byntin.

• Rydym yn ymdrechu lleihau ar werthiant tocynnau papur, gan annog mynychwyr i brynu e-docynnau arlein.

Drwy roi'r mesurau hyn ar waith a meithrin diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol, ein nod yw lleihau gwastraff, cadw adnoddau, a gwarchod harddwch naturiol ein hamgylchedd.